Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA(P)/EM/3097/19

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddEAAL@assembly.wales

9 Medi 2019

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr ar 24 Gorffennaf 2019 sy'n mynd ar drywydd rhai o'r materion a godwyd tra'r oeddwn gerbron y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ym mis Mehefin. Rwy'n ymateb i'r materion rydych chi wedi'u codi ynghylch y Strategaeth Ryngwladol a'r rhwydwaith Swyddfeydd Tramor yn y llythyr hwn.

Bydd ymateb i'r cwestiynau rydych chi wedi eu gofyn am y Concordat ar gyfer Trefniadau Rhyngwladol yn cael ei gyhoeddi ar wahân gan eich bod chi hefyd wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog ynglŷn â'r mater hwn.

Y Strategaeth Ryngwladol

Ar 31 Gorffennaf, cyhoeddais strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol fy mod i wedi bwriadu cyhoeddi strategaeth derfynol cyn toriad yr haf; fodd bynnag, yn sgil yr ansicrwydd sy'n dal i fodoli o ran Brexit, y diffyg eglurder ar ein perthynas â'n cymdogion agosaf a'r trafodaethau maith ynghylch ymadael â'r UE, penderfynais gyhoeddi'r drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hytrach na'i gyhoeddi fel dogfen derfynol, a hynny er mwyn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf o ran Brexit. Yng ngoleuni'r ffaith ein bod yn fwyfwy tebygol o weld Brexit heb gytundeb, rwy'n credu mai oedi cyn cyhoeddi'r strategaeth oedd y penderfyniad cywir.

Fel yr wyf eisoes wedi'i amlinellu yn ystod sesiynau tystiolaeth, cawsom bron i 400 o ymatebion i'r holiadur anffurfiol ar-lein a oedd yn fyw am wyth wythnos yn gynharach eleni. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn ddienw. Hefyd, cefais gwrdd â rhanddeiliaid o bob rhan o'r byd academaidd, byd busnes, byd diwylliant a'r trydydd sector wrth ddatblygu'r drafft.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn unol â'r drefn arferol, bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar ôl i gyfnod yr ymgynghoriad ddod i ben ar 23 Hydref.

Swyddfeydd Rhyngwladol

Fel y trafodwyd ar 10 Mehefin, rwyf wedi gofyn i swyddogion lunio adroddiad chwarterol sy'n rhoi data perfformiad lefel uchel ar gyfer ein swyddfeydd tramor. Bydd y cyntaf o'r adroddiadau chwarterol hyn yn cael ei gyhoeddi ar 1 Hydref.

Yr eiddoch,

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol
Minister for International Relations and the Welsh Language